# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

| **Y Cynghorydd: Denise Owen** | **Adran Etholiadol: Llanybydder** |
|---|---|

| **Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau** |
|---|
| ***Pwyllgorau'r Cyngor:*** |
| |
| Y Cyngor Llawn |
| Y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio |
| Y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Y Pwyllgor Apêl |
| Y Pwyllgor Cynllunio |
| |
| ***Cofnod Presenoldeb:*** Cofnod presenoldeb - Cyng. Denise Owen (llyw.cymru) |

**Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth**

- Rwy'n ceisio bod ar gael ar gyfer etholwyr bob dydd ac rwy'n gobeithio fy mod yn datrys cymaint o faterion ag y gallaf.

- Rwy'n ymateb i bob cwestiwn a godir gan etholwyr.

- Rwy'n nodi, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'r preswylwyr yn fy marn i (gan gynnwys tai; casgliadau biniau; ffyrdd ar gau; digwyddiadau; grantiau posib; ac ati, ac ati). Rwy'n ymateb i unrhyw ymholiadau wyneb yn wyneb, neu gan ddefnyddio galwad ffôn neu'r cyfryngau cymdeithasol.

- Rwy'n cadeirio'r fenter Deg Tref yn Llanybydder ac yn mynychu pob cyfarfod.

- Rwy'n mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Pencarreg a Chyngor Cymuned Llanybydder. Rwy'n Gynghorydd Cymuned ac yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanybydder.

- Rwy'n mynd i ddigwyddiadau cymunedol pan fo hynny'n bosibl, er enghraifft digwyddiadau ym mhentref Cwm-ann a Llanybydder i helpu gyda phrosiect Pum Mil yn Ysgol Gynradd Llanybydder.

| Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion | | |
|---|---|---|
| ***Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion*** | **Cofnod Presenoldeb** | |
| | ***Nifer y Cyfarfodydd*** | ***Canran*** |
| | | |
| Ysgol Gynradd Llanybydder (Medi 2022) | 2 | 50%<br>(roedd salwch wedi fy atal rhag mynd i bob cyfarfod) |

| Adran 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol | | |
|---|---|---|
| ***Rhestr o gyrff allanol*** | ***Cofnod Presenoldeb*** | |
| | ***Nifer y Cyfarfodydd*** | ***Canran*** |
| | | |
| Panelydd Cronfa Waddol Dr Dewi Davies | 2 | 100% |
| Aelod o "Brosiect Ataliol Llanybydder" yng Nghwm Aur | 2 | Mae salwch a llwyth gwaith wedi fy atal rhag mynd i'r cyfarfodydd ffurfiol ond rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr Cwm Aur a byddaf yn mynd i gyfarfodydd yn y dyfodol |

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

- Rwyf wedi mynychu'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol.
- Rwyf wedi mynychu hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Sir, gan gynnwys "Côd Ymddygiad" a Chynllunio.

**Adran 6: Gweithgareddau a Materion Eraill**

- Cynghorydd Cyngor Cymuned Llanybydder.
- Ymwelydd yng Nghyngor Cymuned Pencarreg.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod i gymaint o gyfarfodydd a digwyddiadau ag y gallaf – mae salwch a llwyth gwaith wedi bod yn rhwystr ar adegau.  Rwy'n cael fy nghyflogi'n amser llawn gan Gyngor Sir Ceredigion, felly ar adegau efallai na fyddaf yn gallu mynd i gyfarfodydd os na fydd fy llwyth gwaith yn caniatáu hynny.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd gan y Cynghorydd:  Denise Owen** | **Dyddiad: 01/08/23** |